Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 7 Medi,2026 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Dwynwen (DP), Richard (RR), Eurig (EJ), Steve (SW), Keith (KR) Dewi (DH), Erwyn (EJ), Matthew (MW)

Ymddiheuriadau: Dilys, Iolo ap Gwynn, Gethin

1.	**Croeso** Estynnodd y Cadeirydd groeso i Eben Muse, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru) Cyngor Mynydda Prydeinig oedd yn ymuno â'r cyfarfod heno.	
2.	**COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2026 fel rhai cywir.	
3	**MATERION CMP** Cafwyd cyflwyniad gan Eben Muse, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru) gyda'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) ar waith y sefydliad a'i rôl ef ynddo. Dyma rai o'i sylwadau • Ei fod yn wreiddiol o Ddyffryn Nantlle ond bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i'r CMP ers 5 mlynedd • Mae'r CMP, a sefydlwyd yn y 1940au, yn cynrychioli dringwyr a mynyddwyr ac hefyd yn cynnig yswiriant i glybiau ac aelodau • Mae oddeutu 80,000 o aelodau, rhai unigol a rhai drwy glybiau • Mae dau swyddog yn gweithio i'r corff yng Nghymru, sef ef ei hun a Tom Carrick sydd wedi ei leoli yn y gogledd • Mae'r CMP yn weithgar yn cynrychioli'r aelodau a rhoi llais iddynt mewn nifer o feysydd megis sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru, Cynllun Cefnogi Amaeth cynaliadwy • Mae ef a Tom yn ceisio codi proffil Cymru a materion Cymraeg/ Cymreig oddi fewn i'r sefydliad a byddai yn hoffi gweld mwy o ddatganoli i gangen Cymru • Maent yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yn y byd mynydda/dringo • Maent hefyd yn ceisio codi proffil y Gymraeg oddi fewn i'r sefydliad a datblygu gwefan ddwyieithog. Gofynnodd i bobl adael iddynt wybod am unrhyw wallau neu diffygion yn y fersiwn Gymraeg o'u gwefan • Maent yn gweithio efo Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i geisio hyrwyddo'r defnydd o enwau Cymraeg cynhenid ar nodweddion tirluniau yn y mynyddoedd • Un achos agos i'w galon yw gweld tîm dringo ar wahân yn cael ei sefydlu yng Nghymru • Teimlai'n hynod o falch o gael cyfle i fod yn bresennol yn y cyfarfod a mynegodd y gobaith y byddai modd parhau â'r cyswllt yma i'r dyfodol Yn y drafodaeth ag Eben codwyd y canlynol 1. Croesawu gweld dau Gymro Cymraeg mor weithgar yn gweithredu ar ran y corff yng Nghymru 2. Bydd raid gweld sut bydd y llywodraeth newydd yng Nghaerdydd yn cael effaith ar y maes o safbwynt hawliau mynediad ac ati 3. Roedd yn dda gweld eu bod yn cefnogi'r defnydd o enwau cynhenid Cymraeg, achos agos iawn i galon aelodau'r Clwb 4. Nododd SW ei fod yn mynychu rhai o gyfarfodydd CMP ar ran y Clwb a'i bod yn	

	anodd fel un o'r ychydig gynrychiolwyr Cymraeg eu hiaith i hyrwyddo statws y Gymraeg. Dylid ystyried a yw'r Clwb yn ddigon gweithredol yn ceisio hybu mwy o naws Cymraeg oddi fewn i'r corff 5. Adroddodd MW am brosiectau cymunedol "Open Streets Map" . Prosiectau sydd yn caniatau i drigolion lleol ddefnyddio App i roi enwau cynhenid, lleol (a Chymraeg yng Nghymru) ar fapiau lleol. Mae cynllun wedi ei sefydlu yn ardal Ogwen a thrigolion yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system Cytunwyd i. diolch i Eben am ei sgwrs ddiddorol ac adeiladol ii. gan fod amser yn brin y dylid trafod yr hyn a godwyd yn y sgwrs yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor	
3.	**<u>MATERION ARIANNOL</u>** Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol Adroddwyd • Erbyn 26 Awst 2026 roedd aelodaeth y Clwb yn 246 yn ogystal â 56 'cyfaill' nad oedd yn talu'r tâl aelodaeth llawn • Roedd swm o £7,029.45 yn y banc ar 26 Awst 2026 • Ers y cyfarfod yn Mai gwnaed taliadau i'r CMP (£245) a £264 ar gynnal y wefan. Hefyd roedd £865.20 yn ddyledus i KR ar gyfer y blaendal ar gyfer taith Ullapool 2027 • Ni wnaed y taliad aelodaeth i'r Bartneriaeth Awyr Agored eleni, mater a gaiff ei ystyried yn ddiweddarach ar raglen y Pwyllgor • Byddai'n disgwyl cael gwybod beth fyddai ffioedd y CMP ar gyfer 2027 cyn y Cyfarfod Blynyddol ond gan fod y Clwb wedi cynyddu ei dâl aelodaeth yn sylweddol y llynedd, credai y byddai digon o arian wrth gefn i gwrdd ag unrhyw gynnydd. Cytunwyd nodi'r wybodaeth.	
4.	**<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2026</u>** Adroddwyd gan IPR y bydd mwy o wybodaeth am y cyfarfod yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed ar nos Sadwrn, 21 Tachwedd 2026 yn cael ei anfon i'r aelodau maes o law. Bydd y neges yn cynnwys gwybodaeth am argymhellion y Pwyllgor ar gyfer dyfodol strwythur y cyfarfodydd blynyddol, sef bod y cyfarfod yn unig yn cael ei gynnal ar wahân drwy gyfrwng Zoom a bod gweithgaredd cymdeithasol yn cael ei drefnu gan y Clwb ar adeg gwahanol. Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn ystyried yr argymhellion yma ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y mater. Cytunwyd nodi'r wybodaeth.	
5.	**<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>** Adroddodd RR fel a ganlyn: • Yn y cyfnod rhwng Mai a Rhagfyr cynhaliwyd 42 o deithiau yn y gogledd sy'n gyfystyr a bron i un taith bob wythnos • bod KR wedi trefnu dwy daith i'r Alban eleni a'i fod eisoes wedi cadarnhau'r dyddiadau ar gyfer dwy daith i'r Alban yn 2027. Mynegodd ei	

	werthfawrogiad o'r holl waith trefnu. • y cynhaliwyd un daith flasu ym mis Mai a bod un arall ar y gweill yn nechrau mis Hydref. Mynegodd ei ddiolchgarwch i SW am arwain y ddwy daith • Cafwyd ambell i ddigwyddiad gwahanol yn ystod y cyfnod hefyd megis penwythnos gwersylla ar y Rhinogydd a hyfforddiant ar app mapiau yr AO • Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni gyda DP yn traddodi'r ddarlith a Richard Mitchley yn arwain y daith gyda dros 30 o aelodau wedi ymuno â hi. • Roedd yn hynod o ddiolchgar i'r arweinyddion oedd yn gwirfoddoli i arwain teithiau yn y gogledd ac yn gwneud ei waith trefnu yn rhwydd ond nododd fod Haf Meredydd, cydlynydd teithiau dydd Mercher, yn cael trafferth cael arweinyddion i arwain y teithiau misol. • Adroddodd DH fod criw y de yn dal i gael teithiau misol ond gan fod nifer yr aelodau yn y de a oedd yn mynychu'rteithiau yn llawer llai roedd y pwll o ddarpar arweinyddion yn llawer llai. Byddent hefyd yn cael taith a chinio Nadolig yn y ystod mis Rhagfyr Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i RR a'r cydlynwyr eraill am eu holl waith yn trefnu teithiau'r clwb	
6.	**<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2026 a 2027</u>** <u>A. Eisteddfod 2026</u> Mynegodd EH ddiolch i Dwynwen am draddodi'r ddarlith ac i Richard Mitchley am arwain y daith. Cytunwyd ategu gwerthfawrogiad i Dwynwen a Richard am eu cyfraniad i lwyddiant gweithgareddau'r Clwb yn Eisteddfod y Garreg Las <u>B. Eisteddfod 2027</u> Nodwyd y bydd yn rhaid penderfynu yn y cyfarfod ym mis Ionawr pwy i'w wahodd i draddodi darlith y Clwb yn Eisteddfod Maldwyn ac mai da o beth fyddai i aelodau ystyried y mater erbyn hynny Awgrymwyd gan KR mai un posibilrwydd fyddai gwahodd SW roi'r ddarlith ar y cyd â MW am eu hanturiaethau yn dringo yn yr Alpau yn 2025, yn cynnwys dringo Dufourspitze, copa uchaf y Swisdir. Dywedodd SW ei fod yn fodlon ystyried hyn cyn belled nad oedd cynnig arall. Cytunwyd nodi'r sefyllfa a diolch i SW a MW am eu parodrwydd i gyfrannu a nodi y bydd y mater yn cael ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Ionawr.	
8.	**<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>** Trafodwyd y berthynas rhwng y Clwb a'r Bartneriaeth ac ystyriwyd gwerth parhau i fod yn aelod o'r corff Adroddwyd ar e-bost oddi wrth Ailish Roberts, Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored Rhanbarthol (Gogledd Cymru) y bartneriaeth. Yn y neges soniodd fod y Bartneriaeth yn diddymu'r drefn flaenorol lle byddai clwb yn talu y tâl aelodaeth (£150) iddynt ac yn	

	derbyn hyd at £500 mewn cymorth i ddarparu cefnogaeth i ddarparu cymwysterau a fyddai o fudd i weithgareddau'r Clwb. Dan eu trefniant newydd ni fyddai unrhyw warant y byddai'r Clwb yn derbyn unrhyw gymorth gan y bartneriaeth a cyfeiria'r canllawiau at yr angen i'r Clwb sefydlu nodau ac uchelgeisiau, darparu gwybodaeth am sut y byddai yn ymgysylltu â chyfranogwyr a'r gymuned ehangach ac ymrwymo i weithio mewn partneriaeth. Soniwyd hefyd am yr angen i'r Clwb ddarparu cynllun datblygu os am ymaelodi. Byddai pob cais am gymorth yn cael ei ystyried gan grŵp gwaith mewnol ac yn cael ei asesu yn erbyn eu blaenoriaethau Yn sgil yr uchod, penderfynodd DAP a DP na ddylai'r Clwb ymaelodi â'r bartneriaeth eleni nes fod y Pwyllgor wedi cael cyfle i ail-ystyried y sefyllfa yn sgil yr holl newidiadau Amlinellodd DP ei pherthynas â'r bartneriaeth a'r rhwystrau fu yn ddiweddar i dderbyn cymorth ganddynt. Nododd mai cyrsiau cymorth cyntaf oedd wedi llwyddo 'n bennaf i ddenu cymorth. Cytunwyd i. yn sgil y wybodaeth uchod, ni ddylid ymaelodi â'r Bartneriaeth Awyr Agored eleni ii. y gellid ystyried defnyddio'r arian a dalwyd i'r Bartneriaeth i ddarparu cwrs cymorth cyntaf i aelodau iii. gofyn i DP holi pwy fyddai'n gallu darparu'r fath hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg	
9.	**<u>AMGUEDDFA MYNYDDA</u>** Cafwyd diweddariad ar y syniad o gael amgueddfa yn olrhain hanes mynydda yng Nghymru. Adroddwyd Yn dilyn y penderfyniad i gefnogi'r syniad yn y cyfarfod diwethaf , ysgrifennwyd at yr Amgueddfa Genedlaethol yn holi a fyddent yn fodlon ystyried cefnogi menter o'r fath drwy ddarparu lle yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis Cafwyd ymateb gan Helen Goddard, Cyfarwyddwr Prosiect Amgueddfeydd Llechi, yn datgan nad oedd ganddynt ofod ar ei gyfer yn yr amgueddfa yn Llanberis, ond y byddent yn hapus i geisio cefnogi drwy gyfeirio pobl at unrhyw wybodaeth allweddol ynglŷn âstraeon a lleoliadau. Cytunwyd gan mai IAG gynigiodd y syniad, ac nad oedd yn bresennol, y dylid gohirio ystyried y mater nes y bydd cyfle i drafod ag ef.	
11.	**<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>** Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 4 Ionawr, 2027, drwy gyfrwng Zoom.	